## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A465 (CYLCHFAN LLANDARCY, CASTELL-NEDD PORT TALBOT I'R RHIGOS, RHONDDA CYNON TAF) (TERFYNAU CYFLYMDER DROS DRO) 2023

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A465, neu gerllaw iddi, rhwng Cylchfan Llandarcy yn Sir Castell-nedd Port Talbot a'r Rhigos yn Sir Rhondda Cynon Taf.

Effaith y Gorchymyn yw gosod dros dro naill ai terfyn cyflymder o 50 mya, 40 mya neu 30 mya ar y darnau o gefnffordd yr A465 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Disgwylir y bydd y cyfyngiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 06:00 o'r gloch ar 1 Ionawr 2024 ac yn weithredol yn ysbeidiol am 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

### YR ATODLEN

Y darnau o gerbytffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o, ac yn cynnwys cerbytffordd gylchredol gyfan Cylchfan Llandarcy hyd at ochr ddwyreiniol yr A465 wrth bont Seidins Pwll Glo'r Tower sydd â'r rhif adnabod '370' i'r gorllewin o hen Gylchfan y Rhigos (a fydd yn cael ei hadnabod fel Cylchfan Trewaun cyn bo hir) yn y Rhigos.

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y gefnffordd rhwng y darnau o'r gerbytffyrdd a ddisgrifir uchod.

## THE A465 TRUNK ROAD (LLANDARCY ROUNDABOUT, NEATH PORT TALBOT TO RHIGOS, RHONDDA CYNON TAF) (TEMPORARY SPEED LIMITS) ORDER 2023

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A465 trunk road between Llandarcy Roundabout in the County of Neath Port Talbot and Rhigos in the County of Rhondda Cynon Taf.

The effect of the Order is to temporarily impose either 50 mph, 40 mph or 30 mph speed limits on the lengths of the A465 trunk road described in the Schedule to this Notice.

It is expected that the temporary restrictions, which will be signed accordingly, will come into force at 06:00 hours on 1 January 2024 and operate intermittently for a maximum period of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

### SCHEDULE

The lengths of the eastbound and westbound carriageways of the trunk road that extend from and include the entire circulatory carriageway of Llandarcy Roundabout to the eastern side of the A465 Tower Colliery Sidings bridge with the identification number '370' located west of the old Rhigos Roundabout (soon to be the Trewaun Junction) at Rhigos.

The entire lengths of the eastbound and westbound exit/entry slip roads of the trunk road between the lengths of the carriageways described above.